# SPACE-Wellbeing

## Pwynt mynediad sengl ar gyfer lles emosiynol plant



NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board



## SUT Y GALLWN GEFNOGI LLES EMOSIYNOL PLANT

Mae SPACE-Wellbeing (pwynt mynediad sengl ar gyfer lles emosiynol plant) yn broses y gall gweithwyr proffesiynol a theuluoedd ei defnyddio i geisio cymorth a chefnogaeth gynnar gyda materion sy'n effeithio ar deuluoedd gan gynnwys tai, cyllid, rhianta, iechyd meddwl plant, ac anawsterau ymddygiad.

Mae panel SPACE-Wellbeing Casnewydd yn cyfarfod bob wythnos. Ei nod yw sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael **y cymorth iawn, y tro cyntaf, ar yr adeg iawn**.

Mae'n bosibl y bydd ceisiadau am gefnogaeth yn cael eu dyrannu i wasanaeth a fydd yn cynnig cymorth uniongyrchol i blant a'u teuluoedd. Weithiau, bydd staff arbenigol yn siarad â gweithwyr gofal plant proffesiynol sydd eisoes yn gweithio gyda'r teulu i gynnig cefnogaeth ac arweiniad iddynt.

## PWY SY'N RHAN O BANEL SPACE-WELLBEING CASNEWYDD?

Mae'r panel yn dwyn ynghyd ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Dinas Casnewydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r trydydd sector.

Mae mwy o wybodaeth am y gwasanaethau hyn ar gael dros y dudalen.

## SUT YDW I'N GOFYN AM GEFNOGAETH A BETH SY'N DIGWYDD I'M GWYBODAETH?



Gall teuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ofyn am gefnogaeth drwy SPACE-Wellbeing. Rhaid i'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu'r person ifanc (fel y bo'n briodol) gael gwybodaeth am SPACE pan ofynnir am gefnogaeth a rhaid iddo gytuno gyda'r cais am gefnogaeth sy'n cael ei wneud.

I gael cymorth, dylid cwblhau'r ffurflen gais am gefnogaeth neu lythyr. Gellir cael y ffurflen drwy gysylltu â Chydlynydd SPACE-Wellbeing, ar 01633 656694 neu families.1st@newport.gov.uk. Os yw eich meddyg teulu yn gwneud yr atgyfeiriad, efallai y bydd yn gofyn i chi gwblhau holiadur fel bod y panel yn gwybod beth yw eich barn a beth rydych yn gobeithio amdano.

Bydd gwybodaeth a dderbyniwn yn cael ei storio ar gronfa ddata Cyngor Dinas Casnewydd ac yn cael ei defnyddio at ddibenion darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyn y cyfarfod SPACE-Wellbeing, gall y gwasanaethau sy'n ffurfio'r panel ac ysgol y plentyn a/neu wasanaethau addysg yr awdurdod lleol rannu gwybodaeth â'i gilydd am y plentyn y gofynnwyd am gefnogaeth ar ei gyfer. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal yn gwbl gyfrinachol. Diben y broses hon o rannu gwybodaeth yw helpu'r panel i wneud penderfyniadau da: fel bod plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth iawn, y tro cyntaf.

I gael mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd gyda'ch data, ewch i https://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/GDPR/General-Data-Protection-Regulation-GDPR.aspx

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Cydlynydd SPACE-Wellbeing Casnewydd ar **01633 656694** neu **families.1st@newport.gov.uk**

# GWASANAETHAU SY'N RHAN O BANEL SPACE-WELLBEING CASNEWYDD

## CYNGOR DINAS CASNEWYDD



### Teuluoedd yn Gyntaf

**Mae'r Tîm Atal** yn cynnig cefnogaeth gan gynnwys cymorth a chyngor ar rianta, rheoli cartref, ymddygiad heriol, dymuniadau, teimladau a hunan-barch, presenoldeb yn yr ysgol, perthnasau iach, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lefel isel. Mae'r tîm yn gweithio'n hyblyg i ddarparu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion teulu ac sy'n addas i'w ymrwymiadau.

**Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid** yn gweithio gyda phobl ifanc i gefnogi ymgysylltiad a chyflawniad mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc ac yn eu galluogi i gael llais a dylanwad.

**Mae gweithwyr teuluoedd y Blynyddoedd Cynnar** yn cefnogi teuluoedd sydd ag angen rhianta a nodwyd, drwy gyngor un i un, cefnogaeth yn y cartref a grwpiau rhianta tymhorol. Gall teuluoedd mewn codau post cymwys fanteisio ar bedwar hawl graidd Dechrau'n Deg – rhianta, gofal plant rhan amser am ddim i blant dwy a thair oed, cefnogaeth ar gyfer iaith a chyfathrebu ac ymweliadau iechyd dwys. Gall gweithwyr proffesiynol gyflwyno atgyfeiriadau allgymorth ar gyfer y rhai y tu allan i godau post Dechrau'n Deg lle nodir angen sy'n bodloni'r meini prawf.

**Mae Datblygu Chwarae** yn cynnig cyfleoedd chwarae priodol drwy raglen gwyliau ysgol gynhwysfawr gan gynnwys chwarae mynediad agored, darpariaeth chwarae gofrestredig a chefnogaeth i blant ag anghenion cymhleth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal clybiau chwarae o fewn cymunedau penodol.

**Mae Plant ag Anghenion Ychwanegol (PAY)** yn cefnogi teuluoedd y mae gan eu plentyn anghenion ychwanegol gan gynnwys plant a phobl ifanc ag anabledd neu anhawster datblygiadol.

### Gwasanaethau Plant

**Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu nodau, gwneud y dewisiadau iawn mewn bywyd a lleihau troseddau ieuenctid. Mae'r gwasanaeth yn dwyn staff o sefydliadau ynghyd gan gynnwys gweithwyr yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, iechyd a phrosiectau arbenigol.

### Addysg

**Mae Talking Zone** yn cynnig cwnsela i blant a phobl ifanc. Mae TalkingZone wedi'i leoli ym mhob ysgol uwchradd yn y ddinas ac mae hefyd yn hygyrch i ddisgyblion ysgolion cynradd ac i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg brif ffrwd, cyflogaeth na hyfforddiant.

## BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN

**Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Sylfaenol i Blant a'r Glasoed** yn cynnig asesiad ac ymyrraeth fer i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl ysgafn i gymedrol neu y mae eu hymddygiad yn achosi pryderon.

**Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a'r Glasoed** yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol.

**Seicoleg Gymunedol Plant a Theuluoedd** yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol o ystod o wasanaethau a gyda Chymunedau, gan eu helpu i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant.

**Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgol** yn cynnig clinigau 'galw heibio' i gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u lles emosiynol.

**Mae'r Cymorth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol** yn llwybr atgyfeirio ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol a chymhleth a phlant sydd â phryderon niwroddatblygiadol.

## GWASANAETHAU ERAILL

**Mind Casnewydd** Mae'r tîm gwydnwch a lles teuluoedd yn cefnogi teuluoedd i fagu a chynnal eu gwydnwch i anawsterau iechyd meddwl, trwy roi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau i allu delio â heriau y gallent eu hwynebu. Mae cefnogaeth ar gael drwy sesiynau un i un, sesiynau i deuluoedd a gwaith grŵp.

**Mae Cyswllt Casnewydd Barnardo's** yn cynnwys y Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc / Gofalwyr sy'n Oedolion yng Nghasnewydd sy'n cynnig cefnogaeth bwrpasol i blant a phobl ifanc, hyd at 25 oed, sydd gyda rôl ofalu gartref, boed hynny ar gyfer brawd neu chwaer, rhiant neu aelod arall o'r teulu. Y nod yw lleihau effaith gofalu ar eu bywydau, gwella hyder a hunan-barch, rhoi profiadau a chyfleoedd newydd, cynnig seibiant i ffwrdd o rolau gofalu a lleihau unigedd.

**Mae Mentora** yn canolbwyntio ar les a gwydnwch teuluoedd, trwy fanc o fentoriaid cymheiriaid gwirfoddol ar draws cymunedau Casnewydd, gan sicrhau bod gan deuluoedd gysylltiad parhaus â gwasanaethau ar ôl i'w cefnogaeth dargedig ddod i ben.

**Mae Sparkle** yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â diagnosis o anabledd a/neu anhawster datblygu. Mae clybiau chwarae yn annog plant i fod yn annibynnol, mynegi eu hunain yn greadigol, cael hwyl, datblygu sgiliau, magu hyder, gwneud ffrindiau a phrofi amrywiaeth o weithgareddau chwarae. Mae clybiau ieuenctid yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael hwyl a chymdeithasu ag eraill mewn amgylchedd diogel. Gall y bobl ifanc gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, wedi'u haddasu i fodloni eu hanghenion, i ddatblygu a gwella sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth.

**Mae Cyngor ar Bopeth** yn cefnogi teuluoedd sy'n cynnwys pobl ifanc dan 25 oed a lle mae rhywun yn yr aelwyd ag anabledd. Bydd y teulu'n cael ei gefnogi i wneud y mwyaf o'i incwm, yn bennaf drwy hawliau budd-daliadau, gan gynnwys ffurflenni hawlio anabledd ac apeliadau.

**Mae'r Tîm Ymyrraeth Deuluol** (a ddarperir gan Gweithredu dros Blant a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) yn cynnig ymyriadau teuluol byr sy'n ystyriol o gyflyrau seicolegol, gan weithio gyda theuluoedd yn eu cymunedau.

**Mae Platfform 4YP** yn cynnig cefnogaeth cyfoedion, hyfforddiant hunanreolaeth a chefnogaeth unigol yn ôl yr angen i bobl ifanc 14-18 oed.

**Mae Gwent NGAGE** (a ddarperir gan Barod) yn cynnig cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor sy'n gysylltiedig â chyffuriau a/neu alcohol i bobl ifanc, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

**Mae Cymorth i Fenywod Cyfannol** yn cynnig amrywiaeth o opsiynau cefnogaeth un i un a grŵp i blant sydd wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae'r gefnogaeth yn adeiladu ar gryfderau unigol i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gwella lles gydol oes.




## SUT I WNEUD CAIS AM GEFNOGAETH YNG NGHASNEWYDD

### AR GYFER ATGYFEIRIADAU ARFEROL YN UNIG Y MAE'R CEISIADAU HYN

Mae teuluoedd bellach yn gallu cyflwyno cais am gefnogaeth a/neu gyflwyno gwybodaeth ategol ychwanegol ochr yn ochr ag atgyfeiriad meddyg teulu yn electronig. Gellir cyrchu ein ffurflen trwy ddilyn y ddolen we isod, neu drwy sganio'r cod QR.

* Nid ydym yn gallu derbyn ceisiadau am asesiad Niwroddatblygiadol (h.y. i asesu ar gyfer diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig/Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd). Ymdrinnir â'r ceisiadau hyn drwy'r Tîm Niwroddatblygiadol ac ni dderbynnir hunanatgyfeiriadau. Y broses a ffefrir ar gyfer cyflwyno atgyfeiriad Niwroddatblygiadol yw i rieni gysylltu ag ysgol eu plentyn i ddarparu atgyfeiriad llawn gyda gwybodaeth gan yr ysgol a'r rhieni fel y gellir ei symud ymlaen i'r cam asesiad sgrinio Niwroddatblygiadol. Derbynnir atgyfeiriadau gan y meddyg teulu ond rhaid iddynt gael eu cyflwyno gyda gwybodaeth ategol gan y rhieni a'r ysgol (oni bai bod y plentyn yn cael ei addysgu gartref).

Gwefan: **https://forms.office.com/e/8Zkaf0X5fn**



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional
Partnership Board

GIG CYMRU
NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board